Cymdeithas Gwenynwyr Cymru
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU
Elusen Gofrestredig Rhif 509929

Cod Ymddygiad ar gyfer Ymddiriedolwyr

Arweiniad i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ar ran CGC

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn diwygio'r polisi hwn, ar ôl ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: mis Tachwedd 2023

Cod Ymddygiad ar gyfer Ymddiriedolwyr, Swyddogion a Dirprwyon Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

Cyflwyniad

Cyfansoddiad Cymdeithas Gwenynwyr Cymru (CGC) yw dogfen Lywodraethu'r Gymdeithas ac mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan ei Hymddiriedolwyr, ei Swyddogion ac aelodau'r Cyngor wrth gyflawni'r Nodau a'r Amcanion a nodir.
Bydd y Cod yn cyfeirio at y disgwyliadau cyffredinol o ran ymddygiad i bob un o'r grwpiau ond bydd rhai cymalau'n cynnwys disgwyliadau penodol gan Ymddiriedolwyr sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros redeg CGC yn gyfreithlon ac yn effeithiol. Mae'r Cod Ymarfer yn seiliedig yn fras ar Egwyddorion Nolan ar safonau mewn bywyd cyhoeddus, ac mae amlinelliad ohono fel y mae'n berthnasol i Ymddiriedolwyr a Swyddogion wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

Uniondeb

Mae disgwyl i'r Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Cyngor ddefnyddio eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u profiad i wneud penderfyniadau sy'n gyffredinol er budd pennaf holl aelodau'r Cymdeithasau Gwenyna sydd ar y cyd yn ffurfio Cymdeithas Gwenynwyr Cymru. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb cyfartal dros benderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli a'r Cyngor fel y bo'n briodol. Hefyd maen nhw'n gyd-gyfrifol am weithredu egwyddorion llywodraethu da drwy arweiniad ac enghraifft dda.

Parch

Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr, Aelodau'r Cyngor a Swyddogion CGC drin ei gilydd ac eraill y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw fel rhan o'u rolau gyda pharch a chwrteisi bob amser. Dylai pob aelod o'r grwpiau hyn barchu penderfyniadau democrataidd a wnaed gan y Tîm Rheoli neu'r Cyngor cyhyd ag y bônt yn gyfreithlon. Dylid anghytuno drwy ddadl resymol. Nid oes gan gamdriniaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig unrhyw le ym musnes CGC.
Lle mae polisïau neu reolau gan CGC, dylen nhw gael eu dilyn

Ymrwymiad

Lle mae unrhyw aelod yn ymgymryd â chynrychioli ei Gymdeithas leol yng nghyfarfodydd CGC, yn cytuno i wasanaethu fel Swyddog neu'n sefyll etholiad fel Ymddiriedolwr, mae'n rhaid iddo gydnabod ei fod, wrth wneud hynny, yn cytuno i neilltuo digon o amser er mwyn paratoi at y cyfarfodydd angenrheidiol a'u mynychu. Dylai unrhyw aelod sy'n bwriadu ymgymryd ag unrhyw un o'r rolau uchod

ymgyfarwyddo â'r disgwyliadau ac ag unrhyw ddisgrifiadau swydd/rôl sydd ar gael.

Lle mae unigolyn yn sefyll i gael ei ethol fel Ymddiriedolwr bydd yn cydnabod ei fod yn ymrwymo i rôl sy'n rhoi anghenion gwenyn a gwenynwyr ledled Cymru cyn buddiannau lleol neu bersonol. Er budd dilyniant, etholir Ymddiriedolwr am dair blynedd a dylid osgoi ymddiswyddiadau cyn diwedd y cyfnod hwnnw lle y bo'n bosibl. Cydnabyddir bod y cynlluniau gorau'n gallu mynd o chwith a lle mae'n amhosibl osgoi ymddiswyddo yng nghanol tymor, dylid anelu at roi rhybudd o dri mis fel bod modd trosglwyddo'n rhesymol.

Buddiannau personol a gwrthdaro buddiannau

Ni ddylai unrhyw Ymddiriedolwr, Aelod Cyngor neu Swyddog CGC geisio cael budd o fod yn eu swydd i raddau mwy nag unrhyw aelod arall.
Dylai unrhyw Ymddiriedolwr, Aelod Cyngor neu Swyddog sy'n gweld bod gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath a gadael unrhyw gyfarfod lle trafodir y mater.

Gwrthdaro o fewn CGC

Ni ddylai gwrthdaro godi os yw'r unigolion yn parchu ei gilydd a phenderfyniadau democrataidd CGC. Lle mae sefyllfa'n codi lle mae unrhyw Ymddiriedolwr, Cynrychiolydd neu Swyddog yn ystyried iddo fod yn destun camdriniaeth, bwlio neu unrhyw ffurf arall ar ymddygiad afresymol gan gydweithiwr yna dylid cymryd y camau a nodir ym Mholisi Datrys Anghytuno ac Anghydfod CGC.

Atodiad 1

Egwyddorion Nolan:

1. Anhunanoldeb
Er budd y cyhoedd yn unig y dylai Ymddiriedolwyr a Swyddogion weithredu. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fuddiannau eraill iddyn nhw eu hunain, i'w teulu, i'w ffrindiau neu i'w cysylltiadau.

2. Uniondeb
Ni ddylai Ymddiriedolwyr a Swyddogion eu rhoi eu hunain o dan rwymedigaeth ariannol neu arall i unigolion neu i gyrff y tu allan a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith.

3. Gwrthrychedd
Wrth gyflawni busnes y corff, dylai Ymddiriedolwyr a Swyddogion wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

4. Atebolrwydd
Mae cynrychiolwyr yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'w haelod-gymdeithasau drwy'r Cyngor, ac i'r cyhoedd, a rhaid iddynt fod yn fodlon bod yn destun unrhyw archwiliad sy'n briodol i'w rôl.

5. Bod yn agored
Dylai ymddiriedolwyr fod mor agored â phosibl am bob penderfyniad a wnânt.

6. Onestrwydd
Dylai Ymddiriedolwyr a Swyddogion ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u hymddiriedolaeth a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n amddiffyn budd y cyhoedd.

7. Arweinyddiaeth
Dylai Ymddiriedolwyr hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweiniad ac enghraifft.